**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Awst 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, J. Evans, K. Evans, R. Ll. Hughes, W. T. Hughes, W. I. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, Tom Jones, C. McGregor, Rhian Medi, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br><br>Y Comisiynwyr Byron Davies, Mick Giannasi<br><br>Mr. Stephen Jenkins, Cyfreithwyr Geldards |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr C. Ll. Everett, D. R. Hughes, Ff. M. Hughes, T. Lloyd Hughes, H. Eifion Jones, R. Ll. Jones, J. Arwel Roberts, H. W. Thomas, J. Penri Williams, Selwyn Williams. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd R. G. Parry OBE.

Estynnwyd croeso cynnes i Mr. Stephen Jenkins, Cyfreithwyr Geldards.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Ar ran y Cyngor, cydymdeimlodd y Cadeirydd â'r Cynghorydd J. Penri Williams a oedd wedi colli ei fam-yng-nghyfraith ac â theulu'r cyn Gynghorydd Bwrdeistref a Sir Meurig B. Hughes.

Safodd yr aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch.

Rhoes y Cadeirydd y cyfle i'r Cynghorydd P. S. Rogers ymddiheuro i'r Cynghorydd Rhian Medi yn dilyn ei chwyn yn ei erbyn ynglŷn â'i ymddygiad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ar 25 Ionawr 2011 lle torrodd ar ei thraws heb roddi eglurhad gan ei phechu.  Roedd o'n gobeithio y byddai'n derbyn yr ymddiheuriad ac mai dyma fydd diwedd y mater.

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Gofynnodd y Cynghorydd A. Morris Jones a oedd y Cynghorydd Elwyn Schofield wedi cael cyngor i beidio ag aros yn y cyfarfod heddiw?

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymateb na fedrai gadarnhau'n gyhoeddus unrhyw gyngor cyfreithiol a roddwyd i unigolyn.

**PENDERFYNWYD dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd ei bod yn ymwneud â gwybodaeth y gellid cynnal hawliad am fraint gyfreithiol broffesiynol yn ei chylch mewn achos cyfreithiol ac ar Brawf Budd y Cyhoedd.**

## 4. PWYLLGOR YMCHWILIO

Ystyriwyd - a ddylid sefydlu Pwyllgor Ymchwilio ai peidio yn codi o gyfarwyddyd y Gweinidog dyddiedig Gorffennaf 2011.

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Codwyd cwestiynau a materion gan nifer o aelodau ac ymatebodd y Prif Weithredwr iddynt.

Cyn rhoddi'r mater i bleidlais, cynigiodd y Prif Weithredwr argymhelliad ychwanegol (9) sef rhoddi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Ymchwilio mewn perthynas â'r costau a gyfyd yn sgil penodi Person Annibynnol Dynodedig (PAD) ac yn sgil derbyn unrhyw gyngor cyfreithiol annibynnol yr oedd ei angen i gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd priodol.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod digon o sail i benodi Pwyllgor Ymchwilio i ymchwilio i'r pryderon a fynegwyd gan y Comisiynydd yn ei lythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2011.**
- **Penodi Panel Ymchwilio i ystyried y pryderon a phenderfynu ar y canlynol:-**
    - **A ddylid atal y swyddog dan sylw o'i swydd tra mae'r Pwyllgor yn ystyried a oes achos i'w ateb; a**
    - **A yw'n ymddangos y dylid ymchwilio ymhellach i honiad neu honiadau bod y swyddog dan sylw wedi camymddwyn ac os oes, penodi PAD (Person Annibynnol Dynodedig) yn unol ag amodau'r Rheoliadau.**

- **Y dylid sefydlu Pwyllgor Disgyblu a phenodi aelodau iddo ar yr adeg hon. (Byddai cam o'r fath yn gydnaws â Chanllawiau JNC ac yn osgoi'r angen i'r Cyngor sefydlu ar wahân Bwyllgor Disgyblu os bydd ei angen yn nes ymlaen yn y trefniadau hyn neu mewn unrhyw sefyllfa ymhellach ymlaen lle mae honiadau yn cael eu codi mewn perthynas â swyddog statudol y mae angen eu hystyried o dan y weithdrefn ddisgyblu arbennig hon).**

- **Y dylai Pwyllgor Ymchwilio gynnwys 5 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a thai 1989, ac y dylai o leiaf un aelod a dim mwy na hanner aelodau'r Pwyllgor hwnnw fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.**

- **Dirprwyo i'r Prif Weithredwr yr hawl i benodi aelodau i'r Pwyllgor Ymchwilio mewn ymgynghoriad ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol.**

- **Y bydd unrhyw weithredu pellach yn dibynnu'n llwyr ar i'r Pwyllgor Ymchwilio benderfynu bod angen penodi PAD ac os hynny, ar i'r PAD argymell fod camau disgyblu'n briodol. Os yw hynny'n digwydd fodd bynnag, yna byddai angen sefydlu Pwyllgor Disgyblu i ystyried y camau i'w cymryd. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i benodi Pwyllgor Disgyblu ac i benodi aelodau i'r Pwyllgor Disgyblu mewn ymgynghoriad gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol.**

- **Bod y Cyngor Sir yn cadw iddo'i hun y rôl o wrando ar unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Disgyblu.**

- **Dirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynwyr, yr awdurdod i ymateb i argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru dan A19 y Mesur o ran gosod allan y camau i'w cymryd gan y Cyngor i ddelio gyda'r mater hwn.**

- **Rhoddi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Ymchwilio mewn perthynas ag unrhyw gostau a geir yn sgil penodi PAD a derbyn unrhyw gyngor cyfreithiol annibynnol i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.**

*(Roedd y Cynghorydd R. Ll. Hughes yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y mater).*

*(Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi yn y cofnodion, er ei fod yn parchu bod y penderfyniad wedi ei wneud, yr oedd o'n gynharach yn y drafodaeth wedi gofyn am gyfle i siarad er mwyn gwneud y cynnig y dylid derbyn yr adroddiad ond nid argymhelliad 8 (argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru). Gofynnodd am sicrwydd hefyd nad oedd y Cyngor yn gweithredu yn amhriodol drwy beidio â derbyn rhai sylwadau a fynegwyd yn yr adroddiad).*

*Cadarnhaodd y Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Jones nad oedd y Cyngor yn gweithredu'n amhriodol trwy beidio â derbyn y sylwadau hynny.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2:15pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**